

2016 Rhif 462 (Cy. 147)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Ffordd Osgoi'r Wyddgrug, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2016

Gwnaed

24 Mawrth 2016

Yn dod i rym

1 Ebrill 2016

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Ffordd Osgoi'r Wyddgrug, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2016.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 06:00 o'r gloch ar 1 Ebrill 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y darn o'r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw'r darn o'r gefnffordd a elwir yn Ffordd Osgoi'r Wyddgrug yn Sir y Fflint sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan New

Brighton i'w chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Gwernymynydd, ac eithrio cerbyttfyrdd gylchredol Cylchfan yr Wylfa a Chylchfan Bromfield.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o'r fath gael ei reidio ar y darn o'r gefnffordd.

Cymhwyso

5. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

24 Mawrth 2016

Richard Morgan

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.